# Crynodeb o arolwg hwsmonaeth gwenyn mêl 2023

# Cynnwys

Nifer yr ymatebion. .... 1
Gwybodaeth gefndirol .... 1
Nifer y gwenynfeydd .... 1
Y rhesymau dros gadw gwenyn .... 1
Aelodaeth o gymdeithas cadw gwenyn .... 2
Newidiadau mewn poblogaeth .... 2
Nifer y nythfeydd a cholledion .... 2
Arferion hwsmonaeth .... 3
Newid breninesau .... 3
Amlder ymweliadau â nythfeydd .... 4
Bwydo .... 4
Triniaethau .... 5
Newid crwybrau .... 6
Breninesau .... 6
Addysg, cyngor a chymorth .... 7
Hyfforddiant a gafwyd .... 7
Cymorth .... 9
Adnabod clefydau .... 10
Cysylltu ag UWG .... 11

## Nifer yr ymatebion.

Cafwyd 1517 o ymatebion. Rhoddwyd yr holl ymatebion yn Saesneg. Lle roedd cwestiynau yn ddewisol, rhoddir nifer yr ymatebion a gafwyd ar gyfer pob cwestiwn. Nododd 65 o ymatebwyr nad oeddent yn cadw gwenyn mwyach ac ni chawsant eu cynnwys yn y canlyniadau a gofnodir isod.

## Gwybodaeth gefndirol

### *Nifer y gwenynfeydd*

Roedd y mwyafrif o wenynwyr yn cadw gwenyn mewn un awdurdod. Roedd 92 o wenynwyr yn cadw gwenyn mewn dau awdurdod lleol, roedd 11 yn cadw gwenyn mewn tri awdurdod lleol, roedd pedwar yn cadw gwenyn mewn pedwar awdurdod lleol ac roedd dau yn cadw gwenyn mewn pum awdurdod lleol. Ar y cyfan, nifer cyfartalog y gwenynfeydd a oedd yn cael eu cynnal gan wenynwyr oedd 2.4 gwenynfa fesul gwenynwr (3439 o wenynfeydd/1452 o wenynwyr presennol). Pan ofynnwyd i wenynwyr nodi faint o nythfeydd y maent yn eu cadw, ar gyfartaledd, atebodd 1451 5.3 nythfa, ar gyfartaledd[1]

Roedd y mwyafrif o'r gwenynfeydd (72.7%) yn cael eu cadw mewn lleoliadau gwledig (Tabl 1).

**Tabl 1.** Nifer y gwenynfeydd mewn lleoliadau gwledig a threfol. Mae ***** yn dynodi lle y caniatawyd mwy nag un ateb.

| Lleoliad y wenynfa* | Nifer y gwenynwyr |
|---|---|
| Gwledig | 1056 (72.7%) |
| Trefol | 301 (20.7%) |
| Gwledig a Threfol | 95 (6.5%) |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1452 |

### *Y rhesymau dros gadw gwenyn*

Gofynnwyd i wenynwyr sgorio'r tri phrif reswm pam roeddent yn cadw gwenyn o Dabl 2. Fodd bynnag, defnyddiodd ymatebwyr feysydd testun rhydd i roi eu rhesymau eu hunain, a arweiniodd at ormod o atebion amrywiol ac unigryw neu at sgorio pob opsiwn ond gan roi'r un sgôr ar gyfer mwy na un opsiwn. Felly, ni chrynhoir y canlyniadau.

**Tabl 2.** Yr opsiynau a oedd ar gael i ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt sgorio'r tri phrif reswm dros gadw gwenyn.

| Pam rydych chi'n cadw gwenyn? |
|---|
| Hanes teuluol o gadw gwenyn |
| Newid mewn amgylchiadau personol/gwaith (gan gynnwys ymddeol, symud i dŷ newydd ac ati) |
| Treulio mwy o amser yn yr awyr agored |
| Bod yn rhan o gymuned sy'n cadw gwenyn |
| Gwneud rhywbeth ymarferol |
| Cynaeafu mêl/cynhyrchion gwenyn at ddefnydd personol |
| Gwerthu mêl/cynhyrchion gwenyn |
| Achub y gwenyn |
| Helpu'r amgylchedd |

[1] Lle y rhoddodd gwenynwyr atebion rhwng dau rif, defnyddiwyd y pwynt canol.


| |
|---|
| Fel diddordeb mewn entomoleg |
| Iechyd a llesiant |
| Rhesymau eraill |

*Aelodaeth o gymdeithas cadw gwenyn*

Roedd y mwyafrif o wenynwyr (89.7%) yn aelodau o gymdeithas cadw gwenyn, gyda'r mwyafrif o wenynwyr (87.7%) yn aelodau o Gymdeithas Gwenynwyr Prydain (Tabl 3, Ffigur 1).

**Tabl 3.** Aelodaeth o gymdeithas cadw gwenyn. Mae * yn dynodi lle y caniatawyd mwy nag un ateb.

| A ydych yn aelod o gymdeithas cadw gwenyn? | Nifer y gwenynwyr | % yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydw | 150 | 10.3 |
| Nac ydw | 1302 | 89.7 |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1452 | |
| **Dadansoddiad o aelodaeth o gymdeithasau*** | **Nifer y gwenynwyr** | **% yr ymatebion** |
| Cymdeithas Gwenynwyr Prydain | 1139 | 87.7% |
| Cymdeithas Gwenynwyr Cymru | 100 | 7.7% |
| Cymdeithas y Ffermwyr Gwenyn | 14 | 1.1% |
| Cymdeithas gwenynwyr annibynnol | 113 | 8.7% |
| Arall | 154 | 11.9% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1299 | |




**Ffigur 1.** Aelodaeth o gymdeithas cadw gwenyn.

## Newidiadau mewn poblogaeth

*Nifer y nythfeydd a cholledion*

Collodd 345 (23.8%) o wenynwyr nythfeydd dros yr haf (rhwng 1 Ebrill a 1 Hydref 2022) a chollodd 723 (49.8%) o wenynwyr nythfeydd dros y gaeaf (rhwng 1 Hydref 2022 a 1 Ebrill 2023).


Ar y cyfan, y colledion dros yr haf a gofnodwyd oedd 7.9% (538 of 6842) a'r colledion dros y gaeaf oedd 20.9%[2] (1662 o 7939). Fodd bynnag, cynyddodd nifer y nythfeydd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Hydref 2022 16.0%, yna lleihaodd y nifer 18.1% hyd at fis Ebrill 2023[3], a oedd yn golygu bod ychydig yn llai o nythfeydd nag ym mis Ebrill 2022 (Tabl 4 a Ffigur 2).

[2] Ni chafodd atebion croes eu cynnwys e.e., ateb 'Do' i nythfeydd coll ond nodi bod '0' nythfeydd coll.

[3] % newid o gymharu â nythfeydd ym mis Ebrill 2022.

**Tabl 4.** Nifer y nythfeydd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023.

| Dyddiad | Nifer y Nythfeydd | % Newid |
|---|---|---|
| Ebrill 2022 | 6842 | dd/g |
| Hydref 2022 | 7936 | + 16.0 |
| Ebrill 2023 | 6695 | – 18.13[3] |




**Ffigur 2.** Nifer y nythfeydd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023.

## Arferion hwsmonaeth

### *Newid breninesau*

Nid oedd 43.4% o wenynwyr yn newid breninesau, dim ond pan oedd angen gwneud hynny roedd 30.6% o wenynwyr yn newid breninesau. Roedd 23.3% o wenynwyr yn newid breninesau bob 1-5 mlynedd (Tabl 5).

**Tabl 5.** Arferion newid breninesau

| Pa mor aml rydych yn cyflwyno brenhines newydd i'ch cychod gwenyn? | Nifer yr ymatebion | % y gwenynwyr |
|---|---|---|
| Rwy'n gadael i'm gwenyn benodi brenhines eu hunain yn naturiol | 630 | 43.4% |
| Bob 1-2 flynedd | 229 | 15.8% |
| Bob 3-4 blynedd | 79 | 5.4% |
| Bob 5 mlynedd neu fwy | 1 | 0.1% |
| Bob blwyddyn | 29 | 2.0% |
| Pan fydd angen un neu'n dibynnu ar berfformiad | 445 | 30.6% |
| Arall | 39 | 2.7% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1452 | |

*Amlder ymweliadau â nythfeydd*

Roedd y mwyafrif o wenynwyr (70.7%) yn ymweld â'u nythfeydd unwaith yr wythnos neu fwy yn ystod y tymor gwenyn gweithredol (Tabl 6). Dim ond 2.2% a oedd yn ymweld â'u nythfeydd lai nag unwaith y mis.

**Tabl 6.** Amlder ymweliadau gwenynwyr â nythfeydd yn ystod y tymor gwenyn gweithredol.


| **Pa mor aml rydych chi'n ymweld â'ch gwenyn yn ystod y tymor gwenyn gweithredol?** | **Nifer yr ymatebion** | **% y gwenynwyr** |
|---|---|---|
| Unwaith yr wythnos neu fwy | 1027 | 70.7% |
| Bob 2 wythnos | 307 | 21.1% |
| Bob mis | 86 | 5.9% |
| Llai nag unwaith y mis | 32 | 2.2% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1452 | |

*Bwydo*

Gwnaeth y mwyafrif o wenynwyr (82.0%) fwydo eu nythfeydd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023 (Tabl 7 a Ffigur 3) a nododd y rhan fwyaf (53%) fod 'fel ymyriad y gaeaf' yn rheswm dros fwydo eu nythfeydd.

**Tabl 7.** Gweithgareddau bwydo nythfeydd gwenynwyr rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023.

| **A wnaethoch fwydo eich gwenyn rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023** | **Nifer yr ymatebion** | **% y gwenynwyr** |
|---|---|---|
| Do | 261 | 18.0% |
| Naddo | 1191 | 82.0% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1452 | |
| **Y rheswm dros drin*** | **Nifer yr ymatebion** | **% y gwenynwyr** |
| Fel mesur rhagofalus/arferion arferol | 630 | 53% |
| Fel ymyriad yr haf | 46 | 4% |
| Fel ymyriad y gaeaf | 765 | 64% |
| Er mwyn bwydo nythfa newydd, cwch cnewyllol neu haid gyfan | 433 | 36% |
| Yn dilyn triniaeth ysgwyd haid | 85 | 7% |
| Arall | 15 | 1% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1190 | |




**Ffigur 3.** Rhesymau dros fwydo gwenyn rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023.


### *Triniaethau*

Gwnaeth y mwyafrif o wenynwyr (77.9%) drin eu gwenyn am blâu a chlefydau rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023[4]. Gwnaeth 77.6% drin eu gwenyn yn erbyn *Varroa* (Tabl 8 a Ffigur 4).

**Tabl 8.** Triniaethau yn erbyn plâu a chlefydau gwenyn mêl rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023. Mae * yn dynodi lle y caniatawyd mwy nag un ateb.

| A wnaethoch drin eich gwenyn am blâu a chlefydau rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023? | Nifer yr ymatebion | % y gwenynwyr |
|---|---|---|
| Do | 320 | 22.1% |
| Naddo | 1128 | 77.9% |
| **Y rheswm dros drin*** | **Nifer yr ymatebion** | **% y gwenynwyr** |
| Do – fel rhagofal dan reolaeth yn erbyn varroa | 1106 | 98.0% |
| Do - fel ymateb brys i varroa | 36 | 3.2% |
| Do – fel rhagofal dan reolaeth yn erbyn pla neu glefyd arall | 17 | 1.5% |
| Do – fel ymateb brys i bla neu glefyd arall | 8 | 0.7% |
| ***Triniaethau am Varroa* wedi'u crynhoi** | **Nifer yr ymatebion** | **% y gwenynwyr** |
| Ni thriniwyd y gwenyn | 320 | 22.1% |
| Triniwyd y gwenyn am *Varroa* a phla neu glefyd arall | 1123 | 77.6% |
| Dim ond am bla neu glefyd arall y triniwyd y gwenyn | 5 | 0.3% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1448[4] | |

[4] Ni chynhwyswyd pedwar ymateb am eu bod wedi rhoi atebion ar gyfer trin a pheidio â thrin.





**Ffigur 4.** Canran y gwenynwyr a wnaeth drin eu gwenyn am *Varroa*, am bla neu glefyd arall neu na wnaethant drin eu gwenyn o gwbl.

*Newid crwybrau*

Pan ofynnwyd iddynt nodi pa ganran o grwybrau a oedd yn cael eu newid bob tair blynedd, y grŵp â'r nifer mwyaf o ymatebion (39.2%) oedd 0 - 24% (Tabl 9 a Ffigur 5).

**Tabl 9.** Gweithgareddau newid crwybrau gwenynwyr.

| Pa gyfran o'ch crwybrau magu rydych chi'n eu newid bob 3 blynedd ar gyfartaledd? | Nifer yr ymatebion | % y gwenynwyr |
|---|---|---|
| 0 i 24% | 569 | 39.2% |
| 25 i 49% | 452 | 31.1% |
| 50 i 74% | 189 | 13.0% |
| 75 i 100% | 242 | 16.7% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1452 | |





**Ffigur 5.** Canran y crwybrau a newidiwyd gan wenynwyr.

*Breninesau*

Darparodd cyfanswm o 1591 o wenynwyr wybodaeth am ble maent yn cael eu breninesau newydd. Cafodd y mwyafrif o wenynwyr (66.5%) eu breninesau newydd o'u nythfeydd eu hunain yn naturiol (Tabl 10 a Ffigur 6).

**Tabl 10.** Tarddiad breninesau newydd. Mae * yn dynodi lle y caniatawyd mwy nag un ateb.

| O ble rydych chi'n cael eich breninesau newydd?* | Nifer yr ymatebion | % y gwenynwyr |
|---|---|---|
| O'n nythfeydd ein hunain yn naturiol | 783 | 53.9% |
| Dydw i ddim wedi cael unrhyw freninesau newydd | 242 | 16.7% |
| Mae'r nythfeydd eu hunain yn dethol | 361 | 24.9% |
| Rydym yn eu cael gan gyflenwr | 341 | 23.5% |
| Rydym yn eu cael o gymdeithas gwenynwyr/gwenynwyr lleol | 197 | 13.6% |
| Arall | 17 | 1.2% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1452 | |




**Ffigur 6.** Canran tarddleoedd breninesau a gafwyd gan wenynwyr.


## Addysg, cyngor a chymorth

### *Hyfforddiant a gafwyd*

Nododd 1136 o'r 1452 o wenynwyr a ymatebodd eu bod wedi cael hyfforddiant. Roedd y mwyafrif o wenynwyr a atebodd wedi cael hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth (Tabl 11 a Ffigur 7). Roedd y cwestiwn hwn yn ddewisol. Felly, gallai'r rhai na wnaethant roi ateb fod wedi cael yr hyfforddiant.

**Tabl 11.** Cafwyd 1452 o ymatebion i'r cwestiwn am hyfforddiant. Mae * yn dynodi lle y caniatawyd mwy nag un ateb.

| Ydych chi erioed wedi cael unrhyw rai o'r hyfforddiant ffurfiol canlynol?* | Nifer yr ymatebion | % y gwenynwyr |
|---|---|---|
| Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth | 838 | 73.8% |
| Hyfforddiant ymarferol wrth y cwch gwenyn | 811 | 71.4% |
| Cynllun Sicrwydd rhag Clefydau Gwenyn Mêl | 20 | 1.8% |
| Cwrs ar-lein | 195 | 17.2% |
| Arall | 154 | 13.6% |
| Dim ateb | 316 | 27.8% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1136 | |





**Ffigur 7. Mathau o hyfforddiant a gafwyd gan wenynwyr.**

Nododd 451 o'r gwenynwyr a ymatebodd eu bod wedi cael yr hyfforddiant a amlinellir yn Nhabl 11 rhwng 1 Ebrill 2022 a 1 Ebrill 2023. Roedd y mwyafrif o'r gwenynwyr a atebodd wedi cael hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth a hyfforddiant ymarferol wrth y cwch gwenyn (Tabl 12 a Ffigur 8). Roedd y cwestiwn hwn yn ddewisol. Felly, gallai'r rhai na wnaethant roi ateb fod wedi cael yr hyfforddiant.

**Tabl 12.** Hyfforddiant a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2022 a 1 Ebrill 2023 o 664 o ymatebion. Mae * yn dynodi lle y caniatawyd mwy nag un ateb.

| Ydych chi wedi cael unrhyw rai o'r hyfforddiant ffurfiol canlynol rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023?* | Nifer yr ymatebion | % y gwenynwyr |
|---|---|---|
| Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth | 210 | 46.6% |
| Hyfforddiant ymarferol wrth y cwch gwenyn | 229 | 50.8% |
| Cynllun Sicrwydd rhag Clefydau Gwenyn Mêl | 6 | 1.3% |
| Cwrs ar-lein | 95 | 21.1% |
| Arall | 95 | 21.1% |
| Dim ateb | 1001 | 222.0% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 451 | |





**Ffigur 8. Mathau o hyfforddiant a gafwyd gan wenywnyr rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023.**

*Cymorth*

Mae'r mwyafrif o wenynwyr (69.0%) yn cael cymorth gan eu cymdeithasau cadw gwenyn, a dim ond 1.4% a nododd na allent ddod o hyd i gymorth. At hynny, dim ond hanner y gwenynwyr a gwblhaodd yr arolwg (54.8%) a nododd eu bod yn darparu cymorth i wenynwyr llai profiadol (Tabl 13 a Ffigur 9).

**Tabl 13.** Ffynonellau cymorth i wenynwyr. Mae ***** yn dynodi lle y caniatawyd mwy nag un ateb.

| **Pa rai o'r canlynol sy'n eich cefnogi chi fel gwenynwr?*** | **Nifer y gwenynwyr*** | **% y gwenynwyr** |
|---|---|---|
| Cymdeithas Cadw Gwenyn | 986 | 69.0% |
| Gwenynwr profiadol - mentora anffurfiol | 730 | 51.1% |
| Mentora a sefydlwyd gan gymdeithas cadw gwenyn | 221 | 15.5% |
| Grŵp cydgefnogaeth newydd i wenynwyr | 129 | 9.0% |
| Grŵp cadw gwenyn ar-lein | 334 | 23.4% |
| Dim un – does dim angen cefnogaeth arnaf | 155 | 10.9% |
| Dim un – allwn i dim dod o hyd i gefnogaeth | 20 | 1.4% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1428[5] | |
| **Ydych chi'n cefnogi gwenynwyr llai profiadol?** | **Nifer y gwenynwyr** | **% gwenynwyr** |
| Ydw | 656 | 45.2% |
| Nac ydw | 796 | 54.8% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1452 | |




**Ffigur 9.** Canran y ffynonellau o gymorth a ddarperir ar gyfer gwenynwyr.


Roedd y mwyafrif o wenynwyr (65.5%) yn defnyddio BeeBase i gael cymorth gyda'u harferion cadw gwenyn (Tabl 14 a Ffigur 10).

**Tabl 14.** Ffynonellau cymorth a geisiwyd gan wenynwyr. Mae ***** yn dynodi lle y caniatawyd mwy nag un ateb.

| **I ble rydych chi'n mynd pan fydd angen cyngor ar gadw gwenyn neu iechyd gwenyn arnoch?*** | **Nifer yr ymatebion** | **% y gwenynwyr** |
|---|---|---|
| Grŵp gwenyn lleol | 884 | 61.3% |
| Arolygydd gwenyn lleol | 470 | 32.6% |
| Ar-lein - blogiau gwenynwyr | 489 | 33.9% |
| BeeBase | 944 | 65.5% |
| Deunydd darllen UWG (e.e. taflenni cynghorol) | 483 | 33.5% |
| Cyfryngau cymdeithasol UWG | 49 | 3.4% |

[5]Ni chynhwyswyd 24 o ymatebion am eu bod wedi rhoi atebion croes.

| | | |
|---|---|---|
| Ar-lein - safleoedd gwenwynwyr (nid BeeBase) | 513 | 35.6% |
| Ar-lein – arall | 176 | 12.2% |
| Deunydd darllen nas cyhoeddwyd gan UWG a'r wasg cadw gwenyn | 172 | 11.9% |
| Mentor | 438 | 30.4% |
| Arall | 179 | 12.4% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1442 | |




**Ffigur 10.** Canran y ffynonellau cymorth a gafwyd gan wenynwyr.


### *Adnabod clefydau*

Ym mhob achos, rhoddodd y mwyafrif o wenynwyr ymatebion cadarnhaol o ran adnabod Clefyd Americanaidd y Gwenyn, Clefyd Ewropeaidd y Gwenyn a Chwilen Fach y Cwch. (Tabl 15 a Ffigur 11).

**Tabl 15.** Adnabod plâu a chlefydau. Mae * yn dynodi lle y caniatawyd mwy nag un ateb.

| Ydych chi'n hyderus y gallwch adnabod plâu a chlefydau yn eich gwenyn?* | Nifer yr ymatebion | % y gwenynwyr |
|---|---|---|
| Nac ydw, alla i ddim adnabod Clefyd Americanaidd y Gwenyn | 140 | 9.7% |
| Ydw, gallaf adnabod Clefyd Americanaidd y Gwenyn | 1244 | 85.9% |
| Nac ydw, alla i ddim adnabod Clefyd Ewropeaidd y Gwenyn | 101 | 7.0% |
| Ydw, gallaf adnabod Clefyd Ewropeaidd y Gwenyn | 1332 | 91.9% |
| Nac ydw, alla i ddim adnabod chwilen fach y cwch | 350 | 24.2% |
| Ydw, gallaf adnabod chwilen fach y cwch | 1016 | 70.1% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1449[6] | |

[6] Ni chynhwyswyd tri ymateb am eu bod wedi rhoi atebion croes.




**Ffigur 11.** Canran y gwenynwyr a oedd yn hyderus y gallent adnabod chwilen fach y cwch a chlefyd y gwenyn a chanran y gwenynwyr nad oeddent yn hyderus y gallent wneud hynny.

### *Cysylltu ag UWG*

Nid oedd y mwyafrif o wenynwyr (80.4%) wedi bod mewn cysylltiad ag UWG i gael cyngor ar gadw gwenyn (Tabl 16).

**Tabl 16.** Cysylltiad ag UWG i gael cyngor ar gadw gwenyn. Mae * yn dynodi lle y caniatawyd mwy nag un ateb.

| Cyfnod y cysylltiad i gael cyngor* | Nifer y gwenynwyr* | % yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cyn y 12 mis diwethaf | 168 | 11.6% |
| Yn ystod y 12 mis diwethaf | 107 | 7.4% |
| Cyn ac yn ystod y 12 mis diwethaf | 9 | 0.6% |
| Dim cysylltiad | 1166 | 80.4% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd[7] | 1450 | |

Nid oedd y mwyafrif o wenynwyr (89.5%) wedi bod mewn cysylltiad ag UWG i gael hyfforddiant i wenynwyr (Tabl 17).

**Tabl 17.** Cysylltiad ag UWG i gael hyfforddiant i wenynwyr. Mae * yn dynodi lle y caniatawyd mwy nag un ateb.

| Ydych chi wedi bod mewn unrhyw gysylltiad ag UWG i gael hyfforddiant cadw gwenyn?* | Nifer yr ymatebion | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cyn y 12 mis diwethaf; | 90 | 6.2% |
| Ydw, yn ystod y 12 mis diwethaf; | 60 | 4.1% |
| Cyn ac yn ystod y 12 mis diwethaf | 2 | 0.1% |
| Dim cysylltiad | 1300 | 89.5% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1452 | |

[7] Ni chynhwyswyd dau ymateb am eu bod wedi rhoi atebion croes.

Ar y cyfan, nid oedd 87.0% o wenynwyr wedi bod mewn cysylltiad ag UWG yn ystod y 12 mis blaenorol (Tabl 18).

**Tabl 18.** Cysylltu ag UWG yn ystod y 12 mis diwethaf.

| Ydych chi wedi bod mewn unrhyw gysylltiad arall ag UWG yn ystod y 12 mis diwethaf? | **Nifer yr ymatebion** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|---|
| Ydw | 1263 | 87.0% |
| Nac ydw | 189 | 13.0% |
| Cyfanswm y gwenynwyr a atebodd | 1452 | |